# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn
# 29 Mehefin 2004

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cwestiynau i'r Prif Weinidog

### Rhglen Adfywio Trefol Swyddfa'r Post

**C11 Peter Black:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar raglen adfywio trefol Swyddfa'r Post? (OAQ36382)

**Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan):** Disgwylir i raglen ailddyfeisio'r rhwydwaith Swyddfa'r Post Cyf ddod i ben yn Rhagfyr eleni. Hyd yn hyn, mae 114 swyddfa bost naill ai wedi cau neu i fod i gau. Mae 16 ar ben hynny wedi'u cynnig fel rhai y gellid eu cau. Yn dilyn ymghynghoriad cyhoeddus, mae wyth swyddfa bost wedi aros ar agor ac mae dau gangen newydd wedi'u creu.

Fel y dywedais yn fy ateb i gwestiwn llafar Dai Lloyd, mae Llywodraeth y Cynulliad yn defnyddio'i gronfa datblygu swyddfeydd post ym mhob ffordd posibl i liniaru'r effaith o ailddyfeisio'r rhwydwaith.

### Fiodanwydd Adnewyddadwy

**C12 Brynle Williams:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar fiodanwydd adnewyddadwy yng Nghymru? (OAQ36405)

**Y Prif Weinidog:** Yr wyf yn ymroddedig i ehangu'r diwydiant ynni adnewyddadwy yng Nghymru. O dan y cynllun adfer gwledig, dyrannwyd £500,000 gennym i Awdurdod Datblygu Cymru i ddatblygu rhaglen ynni adnewyddadwy i Gymru. Mae'r Comisiwn Coedwigaeth wedi cyflwyno cynllun busnes ynni coed a, gyda Llywodraeth y DU, yr ydym yn ystyried y targedau ar gyfer gwerthu biotanwydd.

### Canolfan Mileniwm Cymru (Arian a Fuddsoddwyd)

**C13 Owen John Thomas:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatgan faint o arian a fuddsoddwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yng Nghanolfan Mileniwm Cymru hyd yn hyn? (OAQ36413)

**Y Prif Weinidog:** Mae gan ymroddiad Llywodraeth Cynulliad Cymru i ariannu adeiladu Canolfan Mileniwm Cymru derfyn o £37 miliwn. Gwariodd Llywodraeth y Cynulliad gyfanswm o £33.7 miliwn hyd yn hyn ar y ganolfan.

### Argyfyngau Tân

**C14 Brian Gibbons:** A yw'r Prif Weinidog wedi cynnal unrhyw drafodaethau gyda'r gwasanaeth tân a'r rhanddeiliaid perthnasol ar faterion cyffredin wrth ymateb i argyfyngau tân yng Nghymru? (OAQ36404)

**Y Prif Weinidog:** Ni chefais drafodaethau ar y pwnc hwn ond mae'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio a'i swyddogion wedi cadw cysylltiad agos â'u cymheiriaid yn yr awdurdodau tân ac achub wrth inni baratoi ar gyfer datganoli'r gwasanaeth o 1 Ebrill 2005.

### Gallu'r Anabl i Fynychu Lleoliadau sy'n Cynnal Digwyddiadau Mawr y Byd Chwaraeon

**C15 Laura Anne Jones:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar allu'r anabl i fynychu lleoliadau sy'n cynnal digwyddiadau mawr y byd chwaraeon yng Nghymru? (OAQ36401)

**Y Prif Weinidog:** Bydd gofyn i bob lleoliad chwaraeon yr ystyrir ei fod yn ddarparwr gwasanaeth dan Ran III Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995 gymryd camau rhesymol i sicrhau mynediad i'r anabl o fis Hydref 2004. Nid yw'r Ddeddf wedi'i datganoli, ac fe'i gweithredir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau.